**GWENLLIAN A'R WERN**
GWENLLIAN AND THE WERN

I'r mynydd a'r mannau anghysbell
To the mountain and secluded places

# I'r mynydd a'r mannau anghysbell

# To the mountain and secluded places



## Garreg Fawr

Tŷ yn dyddio yn ôl i'r 16eg ganrif oedd yn berchen i'r Wyniaid o Wydir.

## Ogof Llechwyn

Bu'r hen dŷ yn dollborth pan oedd hon yn briffordd. Nepell mae olion cylch cytiau ac mae sôn am frad a dial yn digwydd yma.

## Ty'n y Ddôl

Tŷ hynod ei arddull yn dyddio o 1905.

## Hendre Gwenllian

Nid oes sicrwydd ond credir mai Gwenllian (1097-1136) merch Gruffydd ap Cynan ydi'r Gwenllian hon. Roedd Gruffydd yn frenin Gwynedd (1055-1137).



## Garreg Fawr

A house dating back to the 16th century once owned by the Wynn's of Gwydir.

## Ogof Llechwyn

The house was once a tollgate when this was the main road. Nearby there are hut circle remains and tradition tells of treason and betrayal here.

## Ty'n y Ddôl

Unique in style the house dates back to 1905.

## Hendre Gwenllian

It is uncertain who this Gwenllian is – possibly Gwenllian (1097-1136) the daughter of Gruffydd ap Cynan king of Gwynedd (1055-1137).





TAITH 3 WALK


















**Man Cychwyn**
Canol pentref Garreg

**Cyfeirnod Grid** • SH612 417

**Pellter** • 8.5 Km

**Amser** • 3 - 6 awr

**Disgrifiad** • Coedwigoedd, dolydd garw ac amgen, ffordd a thrac. Rhai darnau serth

**Map** • OS OL18

**Start**
Centre of Garreg Village

**Grid Ref** • SH612 417

**Distance** • 8.5 Kms

**Time** • 3 - 6 hrs

**Terrain** • Forestry, rough and improved pasture, road and track. Some steep sections

**Map** • Ordnance Survey OL18

## Tyddyn Gwyn

Bu pedair cenhedlaeth o deulu'r Mordecai yn gwehyddu yma yn 17eg ganrif.

## Moel Dinas

Hen fryngaer yn codi 500-600 troedfedd uwchben y môr yn agos at Fferm Dinas.

## Y Wern

Ffermdy hynafol yn dyddio o'r 16eg ganrif fu'n gartref i'r Parch. Richard Jones (1771-1833) emynydd a diwinydd ac i Thomas Richards (1883-1958) bardd a phorthmon.

## Tyddyn Gwyn

Four generations of the Mordecai family, who were 17th century weavers, lived here.

## Moel Dinas

Above Dinas farm a hill fort that rises 500-600 feet above sea level.

## Y Wern

An old farmhouse dating back to 16th century, once the home of Rev. Richard Jones(1771-1833) hymn writer and theologist, and Thomas Richards (1883-1958) poet and drover.

**1** O Garreg cerdded ar yr A4085 am Feddgelert.Troi i'r Dde (Dd.) mewn 400medr am Groesor.

**2** Ar ôl trac i Traian troi i'r Dd. fyny stepiau a chamfa i giât yn arwain at lethr agored. Dilyn llwybr i fyny'r llethr at giât haearn sy'n arwain at drac. Troi i'r Chwith (Ch.) trwy giat o flaen Garreg Fawr. Heibio'r tŷ at giat yn arwain i goedwig. Cyrraedd trac gwell a dringo fyny am I Km at giât wrth gyffordd â ffordd fach.


**3** Troi i'r Dd.ar hyd y ffordd,mynd trwy giât allan o'r goedwig ac ymlaen trwy dir agored , trwy giât arall, a disgyn lawr tuag at Dan y Bwlch. Troi i'r Dd. ar lwybr wrth giât a stepiau ychydig cyn tŷ Ogof Llechwyn.

**4** Ymlaen at bont droed, a thrwy giât yng nghornel y cae, croesi pont droed arall a cherdded wrth yr Afon Rhyd. Mynd trwy giât mochyn lawr at dŷ Ty'n Ddol.

**5** Troi i'r Dd. wrth y tŷ. Mynd dros bont droed, trwy gatiau ac i fyny wrth ochr ffens. Mynd trwy giât yn y ffens, i'r Dd. fyny'r cae at giât. Cadw i'r Ch. at giât fach yna i'r Dd. I'r Ch. wrth gornel y wal ac ymlaen at giât bren. Cadw i'r Dd. at gamfa dros ffens ac i'r Ch. lawr drwy berthlys. Mae darn gwastad yn arwain at gamfa a thrac. Troi i'r Dd. at giât wrth Hendre Gwenllian. Cadw i'r Dd., fyny'r llethr at giât mochyn. Dilyn ymyl y cae ar y Ch. at giât wrth dŷ Tyddyn Gwyn.

**6** Troi i'r Ch. lawr trac at giât a ffordd.Ymlaen lawr y trac at Fferm Dinas.Ynghornel y trac mynd trwy giât, croesi'r cae at ail giât a gwyro i'r Dd. at gamfa gerrig dros wal. Mynd ar i lawr gan gadw i'r chwith at gamfa gerrig.Ymlaen trwy fwlch, cadw i'r Ch.o'r adfail a'r goeden dderw yn y cae nesaf.Ymlaen ac ar draws i ffordd fach.

**7** Troi i'r Dd. lawr y ffordd.Mynd trwy giât wrth sgubor. Heibio tŷ'r Wern. Troi i'r Dd. wrth gyffordd mewn 200medr. Ar ôl giât, syth ymlaen ar lwybr sy'n codi'n araf at giât mochyn. Dod lawr heibio dau fwthyn at y A4085 gyferbyn â thafarn Brondanw.




*Ymwadiad* · *Aseswyd y llwybr ar y daflen hon yn ystod Haf 2013. Ni fydd Cyngor Cymuned Llanfrothen yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am newidiadau i'r llwybr. Mae rhanfwyaf y teithiau ar lwybrau cyhoeddus, er bod rhai darnau ar lwybrau goddefol. Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir adeg ei argraffu. Ni fydd y Tirfeddiannwyr, Cyngor Cymuned Llanfrothen a'i bartneriad yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddamweiniau neu anafiadau ar y teithiau cerdded hyn. Mae cerddwyr yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain. Dylid gwisgo dillad ac esgidiau addas a chadarnhau natur y tywydd cyn mentro allan pob tro.*

*Disclaimer* · *The route on this leaflet was assessed in Summer 2013. Cyngor Cymuned Llanfrothen Community Council takes no responsibility for changes to the route. Most routes are on public rights of way, although some sections are permissive routes. The information contained in this leaflet was correct at the time of printing. Landowners, Cyngor Cymuned Llanfrothen and partners accept no liability for accidents or injuries on these walks. Walkers are responsible for their own safety. Always wear appropriate clothing and footwear and check weather conditions before heading out.*

**1** From Garreg, walk towards Beddgelert on A4085. Turn R up minor road towards Croesor.

**2** After track to Traian, turn R up set of steps and stile to gate leading to open hillside. Follow path upwards across the slope to iron gate which leads to track. Turn L and pass through gate in front of Garreg Fawr. Continue past house up to gate into forestry. Reach better track and continue uphill for a kilometre to gate at junction with minor road.

**3** Turn R along road, pass through gate out of forestry and continue over open ground, through another gate, descending towards Tan y Bwlch. Turn R on footpath at gate and steps just before Ogof Llechwyn house.

**4** Go ahead to a footbridge, through gate at corner of the field and cross another footbridge to walk by Afon Rhyd. Pass through kissing gate and walk down to Ty'n Ddôl house.

**5** Turn R by house. Go over footbridge, through gates and uphill alongside fence. Go through gate in fence then R up field to gate. Bear L to small gate, then R. Take L fork by wall corner then go ahead to wooden gate. Bear R to stile over fence and go L down through copse. A flat section leads to a stile and track. Turn L to gate by Hendre Gwenllian. Contour R then go uphill to kissing gate. Follow field edge L to gate by Tyddyn Gwyn house.

**6** Turn L down track to gate and road. Continue ahead down track towards Dinas Farm. On corner of track go through gate, cross field to second gate and bear R down to stone stile over wall. Head downhill, bearing L to stone stile. Go ahead through gap. Pass to L of ruin and oak tree in next field. Continue across to minor road.

**7** Turn R down road. Go through gate by barn. Pass Y Wern house on R. Turn R at junction in 200 metres. After gate, go straight ahead along a path which climbs gradually to kissing gate. Descend past two cottages to reach A4085 opposite Brondanw Arms.